# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

# Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

## DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

## WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

## A GYFLWYNWYD / TABLED ON

## 15/03/01

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2001-0007 PARCHU'R CYTUNDEB DATGANOLI/RESPECT FOR THE DEVOLUTION SETTLEMENT

16 Feb 2001 Raised by Glyn Davies, Peter Rogers

2 Subscribers:

David Davies
David Melding

*This Assembly regrets the decision by Members of Parliament to criticise the Assembly's decision to examine the effects of a ban on hunting with hounds in Wales; and*

*- reaffirms the Assembly's call to have the issue determined in Wales, and notes Parliament's refusal to make such provision;*
*- commends Members for recognising the importance of the issue in Wales;*
*- notes the decision to raise an Early Day Motion in order to influence the proceedings of the National Assembly for Wales;*
*- and requests that Members of Parliament focus attention on Parliamentary business in*

*accordance with the devolution settlement.*

*Parchu’r Cytundeb Datganoli*

*Mae’r Cynulliad hwn yn anhapus gyda phenderfyniad Aelodau Seneddol i feirniadu penderfyniad y Cynulliad i gynnal astudiaeth o effeithiau gwahardd hela â chwn yng Nghymru; ac*

*• yn ailadrodd cais y Cynulliad i’r penderfyniad gael ei wneud yng Nghymru, ac yn nodi’r ffaith fod y Senedd wedi gwrthod gwneud darpariaeth o’r fath;*
*• yn cymeradwyo’r Aelodau am sylweddoli pwysigrwydd y mater hwn yng Nghymru;*
*• yn nodi’r penderfyniad i godi Cynnig Cynnar-yn-y-dydd er mwyn dylanwadau ar drafodion y Cynulliad;*
*• yn gofyn i’r Aelodau Seneddol ganolbwyntio eu sylw ar fusnes y Senedd yn unol â’r cytundeb datganoli.*

## Amendments

A01 19 Feb 2001 Raised by Ron Davies

7 Subscribers

Kirsty Williams
Mick Bates
Christine Chapman
Janet Davies
Cynog Dafis
Gareth Jones
Lorraine Barrett

***Delete all after ‘This Assembly’ and insert;***
***‘Notes the confused and contradictory attitude of Conservative AMs in the National Assembly who, while calling for respect for the "devolution settlement", simultaneously call for the issue of hunting with hounds to be determined in Wales, thus effectively calling for primary law-making powers over non-devolved Home Office functions’.***

***Dileu popeth ar ôl ‘Y Cynulliad hwn’ a rhoi yn ei le;***

***‘Nodi agwedd ddryslyd a chroes Aelodau Ceidwadol y Cynulliad Cenedlaethol sy’n galw am barch at y "setliad datganoli", ac ar yr un pryd yn gofyn i fater hela â chw^n gael ei benderfynu yng Nghymru, ac sydd felly, i bob pwrpas, yn galw am bwerau deddfwriaeth sylfaenol dros swyddogaeth sydd heb ei datganoli o’r Swyddfa Gartref.’***

## OPIN-2001-0009 Condemnation of racist and intolerant behaviour towards Wales

07 Mar 2001 Raised by Richard Edwards

9 Subscribers:

- Christine Chapman
- John Griffiths LLB
- Tom Middlehurst
- Gwenda Thomas
- Ron Davies
- Christine Gwyther
- Karen Sinclair
- Delyth Evans
- Lorraine Barrett

*Condemnation of racist and intolerant behaviour towards Wales*

*This National Assembly condemns absolutely the racist and intolerant behaviour of Anne Robinson, BBC presenter and journalist, in denouncing Wales and its people, language and culture. Such behaviour conflicts totally with this National Assembly's statutory duty to promote equality of opportunity and ensure a fair, tolerant, civilised, multicultural Wales.*

*Condemnio ymddygiad hiliol ac anoddefgar tuag at Gymru*

*Mae’r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn llwyr gondemnio ymddygiad hiliol ac anoddefgar Anne Robinson, un o gyflwynwyr a newyddiadurwyr y BBC, wrth iddi ladd ar Gymru a’i phobl, ei hiaith a’i diwylliant. Mae ymddygiad o’r fath yn gwbl groes i ddyletswydd statudol y Cynulliad Cenedlaethol i hybu cyfle cyfartal a sicrhau Cymru deg, oddefgar, wâr ac amlddiwylliannol.*

## Amendments

A01 08 Mar 2001 Raised by Mick Bates

2 Subscribers

Glyn Davies
Peter Rogers

*Dileu popeth a rhoi’r canlynol yn ei le:*

*Fel cenedl hyderus a blaengar, rydym yn cymeradwyo sylwadau eiddigeddus Anne Robinson ar dreftadaeth ddiwylliannol y Cymry, eu talent wrth chwarae rygbi, eu hiwmor a’u hapusrwydd, ac rydym yn eu derbyn yn y naws ysgafn y’u bwriadwyd; yn bennaf oll, rydym yn canmol ymwybyddiaeth ddiwylliannol ddyfnach Paul Merton wrth iddo wrthod condemnio’r Cymry, hyd yn oed o dan gryn bwysau.*

*Delete all and replace with:*

*As a confident and forward looking nation - we endorse Anne Robinson's envious comments about Wales cultural heritage, rugby playing talent, humour and happiness' and take them in the light hearted spirit in which they were intended; above all commending Paul Merton's superior cultural awareness in refusing, under considerable pressure, to condemn the Welsh.*

## OPIN-2001-0010 Human Rights Abuses in Zimbabwe

07 Mar 2001 Raised by David Davies

2 Subscribers:

Kirsty Williams
Peter Rogers

*Human Rights Abuses in Zimbabwe*

*This Assembly applauds Peter Tatchell for drawing attention to the appalling human rights abuses in Zimbabwe under the Mugabe regime, particularly those carried out against ex-patriots from Wales and the U.K. as a whole. We also applaud Mr Tacthell's valiant attempt to arrest President Mugabe. This Assembly calls on all E.U. nations to pursue the arrest and*

*subsequent trial of President Mugabe for his role in the human rights abuses in Zimbabwe.*

*Tramgwyddo Hawliau Dynol yn Simbabwe*

*Mae’r Cynulliad hwn yn canmol Peter Tatchell am dynnu sylw at yr anghyfiawnder ofnadwy o ran hawliau dynol yn Simbabwe o dan drefn Mugabe, yn enwedig yr anghyfiawnder a ddangosir tuag at bobl o Gymru ac o’r Deyrnas Unedig, yn gyffredinol. Rydym hefyd yn canmol ymdrech ddewr Mr Tatchell i restio Arlywydd Mugabe. Mae’r Cynulliad hwn yn galw ar i holl genhedloedd yr Undeb Ewropeaidd barhau i bwyso am arestiad a phrawf Arlywydd Mugabe am ei rôl wrth dramgwyddo hawliau dynol yn Simbabwe.*

## OPIN-2001-0011 Yr Ewro a'r Mudiad Ewropeiaid Ifanc/The Euro and the Young European Movement

12 Mar 2001 Raised by Peter Black

2 Subscribers:

Christine Chapman
John Griffiths LLB

### *The Euro and the Young European Movement*

***This National Assembly recognises the benefits to Wales of joining the Euro and supports the calling of an early referendum on a single European currency, once the economic conditions are right. It also congratulates the Young European movement on its Euro Campaign.***

### *Yr Ewro a'r Mudiad Ewropeiaid Ifanc*

***Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod manteision ymuno â'r Ewro i Gymru ac yn cefnogi galw pleidlais gynnar ar Arian Ewropeaidd Sengl, pan fydd yr amodau economaidd yn iawn. Mae hefyd yn llongyfarch y Mudiad Ewropeaid Ifanc ar ei ymgyrch dros yr Ewro .***

# OPIN-2001-0012 Comic Relief – Y Cynulliad yn dweud "Trôns wrth Dlodi"/Comic Relief - The Assembly says "Pants to Poverty"

13 Mar 2001 Raised by Delyth Evans, Jonathan Morgan LLB MSc FRSA, Rhodri Glyn Thomas, Kirsty Williams

4 Subscribers:

Ron Davies
Val Feld
Ann Jones
Christine Chapman

*Comic Relief – Y Cynulliad yn dweud "Trôns wrth Dlodi"*

*Mae’r Cynulliad hwn yn cymeradwyo’r gwaith caled a wneir gan Comic Relief yn ei ymdrechion i helpu i roi terfyn ar dlodi ac anghyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a gwledydd tlotaf Affrica, ac yn ei longyfarch ar godi dros £174 miliwn ers 1985; yn annog holl Aelodau’r Cynulliad i gefnogi Diwrnod Trwynau Coch 2001 ar ddydd Gwener 16 Mawrth ac yn dymuno pob llwyddiant i Comic Relief yn ei ymdrech i dorri pob record ar gyfer ymgyrch Diwrnod Trwynau Coch eleni.*

*Comic Relief - The Assembly says "Pants to Poverty"*

*This Assembly commends the hard work carried out by Comic Relief in it's attempts to help end poverty and social injustice in Wales, the United Kingdom and the poorest countries in Africa and congratulates them for raising over £174 million since 1985; encourages all Assembly Members to support Red Nose Day 2001 on Friday March 16 and wishes Comic Relief luck in breaking all records for this year's Red Nose Day campaign.*